# Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cynradd Is

# Gweithgaredd 5:
# Beth mae pobl eisiau?

## Amcan dysgu

- Cynnal ymchwil syml i'r farchnad.

## Nodweddion Entrepreneuriaeth

**Creadigedd**

- Cyfathrebu

**Trefniadaeth**

- Ymchwil – deall yr amgylchfyd

## Gweithgareddau dysgu

Gofynnwch y cwestiwn: *"Sut allwn ni ddarganfod os bydd rhywun eisiau prynu ein cynnyrch neu'n gwasanaeth?"*

Cyflwynwch y syniad o ymchwil i'r farchnad a'r gynulleidfa darged e.e. wrth gynllunio bwydlen newydd ar gyfer ffreutur yr ysgol pwy ddylai gael eu holi a pham?

Trafodwch fanteision defnyddio holiadur i ymchwilio i'w syniad menter gyda'u cynulleidfa darged.

Mewn grwpiau mae'r disgyblion yn dyfeisio eu holiaduron syml eu hunain. Gallai cwestiynau posibl gynnwys:

- *"Beth maent yn feddwl o'n syniad?"*
- *"Ydyn nhw'n hoffi ein cynnyrch neu wasanaeth?"*
- *"A fydd pobl eisiau ei brynu?"*
- *"Faint fyddent yn fodlon talu amdano?"*

Mae'r disgyblion yn penderfynu pwy i'w holi e.e. eu teulu, disgyblion mewn dosbarthiadau eraill, rhieni ac yna'n defnyddio eu holiaduron i gasglu gwybodaeth

Mae'r disgyblion yn coladu eu data ac yn adeiladu graff syml/siart gyfrif sy'n cynrychioli eu canfyddiadau.

# Gweithgaredd 5:
# Beth mae pobl eisiau?

**Cynradd Is**

## Canlyniadau dysgu

Bydd disgyblion y datblygu sgiliau ymchwil syml.



## Adnoddau sydd eu hangen

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol



## Cwricwlwm ar gyfer Cymru

### Sgiliau Trawsgwricwlaidd

**1. Llythrennedd**

**Siarad**

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu



**Gwrando**

- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

**Ysgrifennu**

- Cynllunio a threfnu ar gyfer dibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destun gwahanol.



**2. Rhifedd**

- Casglu data
- Cynrychioli data
- Dehongli data.